“a maddau inni ein troseddau, fel yr ŷm ni wedi maddau i’r rhai a droseddodd yn ein herbyn;” **(Mathew 6:12)**

Mae’r rhan yma o batrwm yr Arglwydd o weddi yn dra phwysig. Mae’n ein harwain i gofio bod ein bywyd beunyddiol yn effeithio ar ein perthynas â Duw ac ag eraill hefyd.

Beunyddiol

Mae’r cysylltair bach ‘a’ yn cydio’r cymal blaenorol wrth y cymal presennol. Fel mae angen bara beunyddiol ar y corff a’r enaid, mae angen maddeuant beunyddiol arnom yn ein perthynas â Duw. Hefyd, mae angen maddeuant yn ein hymwneud beunyddiol â’n gilydd.

Heb edifeirwch cyson, dyddiol, ni fyddwn yn tyfu mewn sancteiddrwydd, ni fyddwn yn profi ateb i’n gweddïau yn yr un ffordd, ac ni fyddwn mor ddefnyddiol yn ein gwasanaeth i’r Arglwydd.

Heb edifeirwch cyson a hunanymholiad bydd pechodau yn raddol dyfu heb gael eu hatal. Bydd eraill yn sylwi ar wahaniaeth ynom. Wrth ymateb i sefyllfaoedd amrywiol bywyd byddwn yn colli tangnefedd, yn colli amynedd, yn cynyddu mewn hunanoldeb, heb sôn am y posibilrwydd o fod yn llai sensitif i bechodau eraill hefyd.

Ar ben hynny, byddwn yn colli’n cymundeb agos â’n Tad nefol. Gallwn deimlo’n hapus a bodlon ar lefel arwynebol, ond byddwn yn siŵr o golli cyfeillach ystyrlon â’n Duw, a byddwn mewn perygl o gerdded mewn trwmgwsg ysbrydol.

Troseddau

Yn llythrennol, mae’r gair Groeg yn golygu dyled. Rhywbeth sy’n ddyledus i rywun arall. Mae’n amlwg mai ‘pechodau’ mae Iesu’n ei olygu, oherwydd dyna’r gair a ddefnyddir yn y darn cyfatebol yn efengyl Luc (pen.11).

Mae’r gair ‘dyled’ yn ein hatgoffa fod ein pechodau yn amddifadu Duw o’i hawl. Mae cyfiawnder yn hawl syflaenol i Dduw, nid dim ond rhywbeth mae’n ei ddymuno. Mae ganddo hawl i’n haddoliad, ein hufudd-dod, ein cariad, ein gwasanaeth a’n sancteiddrwydd.

Mae’r gair dyled yn ein hatgoffa fod angen talu’r ddyled. Wrth i ni gyffesu ein pechodau, yr ydym yn pledio gwaed Crist i glirio’r ddyled. Er ei fod wedi clirio’r ddyled eisoes, mae’n bwysig i ni edifarhau yn ddyddiol er mwyn cadw’n perthynas â’r Arglwydd yn glir.

Mae troseddau neu ddyledion yn y lluosog, oherwydd ein bod yn cyflawni nifer o bechodau mewn diwrnod. Mae’n amhosibl i ni gofio ac enwi pob un, a

byddai hynny'n orchwyl dinistriol iawn. Rhaid i ni geisio cofio ac enwi'r prif bechodau, gan ddangos galar drostynt. Mae amrywiaeth o bechodau yn y galon, y meddwl, y gweithredoedd a'r geiriau.

Mor drugarog yw'n Duw i ganiatáu i ni fyw ar ei faddeuant bendigedig trwy Iesu Grist!

Maddau inni

Ystyr y gair maddau yw 'anfon ymaith'. Wrth ofyn am faddeuant, rŷn ni'n gofyn i Dduw gymryd ein pechodau i ffwrdd oddi wrth ein henwau ni. Pan gaiff y cyfan ei gymryd ymaith, byddwn yn lân eto yng ngolwg y nef. Ni fyddwn yn euog gerbron llys y nef. Mae'r weddi'n dangos awydd hefyd i dorri arferiad pechod, a bod yn rhydd oddi wrtho.

Rŷn ni'n gofyn, felly, am help i'r dyfodol i orchfygu'n pechodau. Rŷn ni'n awyddus i newid, neu gael ein newid er gwell i'r dyfodol. Mae gwir edifeirwch yn cynnwys hiraeth i fod yn rhydd o bechod yn llwyr. Mae'n golygu gofyn am nerth i'w goncro, gras i'w gasáu, a grym i'r cydwybod i seinio larwm uchel pan ddaw temtasiwn eto.

Fel yr ŷm ni wedi maddau

Ni allwn ni faddau pechod yn erbyn Duw. Serch hynny, gallwn faddau tramgwydd yn ein herbyn ninnau. Mae Iesu'n defnyddio gair gwahanol yn adnod 14, wrth sôn am bechodau pobl yn erbyn ei gilydd. Camwedd yw'r gair yn y Gymraeg. Mae'r gair Groeg yn golygu tresbas, neu gam i'r cyfeiriad anghywir.

Mae hyn yn golygu maddau i rywun sydd wedi'n brifo neu'n tramgwyddo mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae maddau yn golygu peidio â dangos dirmyg, casineb neu oerni, gan symud yr atgof o'r camwedd o'n meddwl yn gyflym. Mae'n golygu symud chwerwder, balchder, condemniad a chydymdeimlad o'n calonnau.

Dywed y Gair fod cariad yn cuddio lliaws o bechodau, a dylem fod yn barod i faddau dro ar ôl tro. Dyma agwedd ein Duw tuag atom ni. Does dim rhaid i'r person edifarhau bob tro chwaith, oherwydd mae Duw yn maddau i ni heb i ni fanylu ar bob pechod.

Mae'n rhaid bod hyn yn bwysig, gan fod yr Arglwydd yn disgwyl i ni faddau os ydym yn disgwyl i Dduw faddau i ni. Pa hawl sydd gennym i ddisgwyl maddeuant Duw heb barodrwydd, gyda chymorth Duw, i faddau i'n cymydog?

pa dduw sy'n maddau fel tydi
yn rhad ein holl bechodau ni?
(Samuel Davies, cyf. J R Jones)